Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS



# Adroddiad Blynyddol
## 2016-17

# Cynnwys




1 Adroddiad y Cadeirydd

2 Nifer y Clybiau

3 Strwythur, Llywodraethiad a Rheolaeth

4 Cefnogi Clybiau Gofal Plant All-Ysgol

5 Arolwg Bodlonrwydd Blynyddol


6 Datblygu'r Gweithlu

7 Gweithio Mewn Partneriaeth

8 Prosiectau

9 Adolygiad Blynyddol

# Adroddiad y Cadeirydd









**Bu fy ail flwyddyn yn fy rôl yn Gadeirydd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn un brysur, yn cynnwys newidiadau rheoleiddiol a chymorth sylweddol i Glybiau Gofal Plant All-Ysgol ar draws Cymru.**

Mae ein gwaith ym mhrosiect Gofal Plant yng Nghymru, Dysgu a Gweithio ar y Cyd (CWLWM) yn dal i ffynnu. Mae CWLWM yn dwyn at ei gilydd y pum prif gyrundrefn ofal-plant yng Nghymru i gyflenwi gwasanaeth strategol, dwyieithog ac integredig sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ledled Cyrmu, yn null 'system-gyfan' Llywodraeth Cymru. A hithau wedi cyrraedd, a mynd heibio i nifer o'r targedau, mae'r bartneriaeth wedi tyfu o ran cryfder a statws. Mae'r dull cydlynol, strategol hwn yn sicrhau cysondeb ansawdd a chefnogaeth ac arweiniad effeithlon, gan roi atebion arloesol i anghenion lleol.

Rhagorwyd ar ein targed codi-arian am y flwyddyn, er gwaetha'r hinsawdd gynyddol anodd ym maes codi arian. Â llai o staff, mae'r baich wedi cynyddu ar y rhai sy'n weddill; maent wedi ceisio am arian gan ymddiriedolaethau ac arianwyr eraill i ddod a rhywfaint o syniadau a phrosiectau arloesol a newydd i'r gyfundrefn, sydd, yn eu tro, yn gymorth i roi gwell syniadau i glybiau am weithgareddau.

Erys y gefnogaeth gan ein haelodau yn gryf, mewn cyfnod sydd yn heriol iddynt hwy yn ogystal. Byddwn yn dal i wneud y cyfan a allwn i'w helpu i barhau'n gynaliadwy yn y flwyddyn i ddod, gan roi cyngor, adnoddau a hyfforddiant. Byddwn yn sicrhau bod Gofal Plant All-Ysgol yng Nghymru yn dal i gefnogi plant a'u teuluoedd, gan alluogi rhieni i weithio neu hyfforddi tra bydd eu plant yn derbyn gofal, a budd o gyfleoedd chwarae cadarnhaol, cyn, ar ôl oriau ysgol, neu yn ystod gwyliau'r ysgol.

Os llwyddwn yn ein ceisiadau am ariannu, mae'r rhagolygon am y flwyddyn i ddod yn gyffrous ac yn cynnwys ambell i syniad arloesol o ran cefnogi'r sector; byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff ac arianwyr eraill.

**Rebecca Sweeting**
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

## Ein Hamcanion

— *Hyrwyddo gofal ac addysg plant mewn Clybiau Gofal Plant All-Ysgol a hyrwyddo'r ddarpariaeth o gyfleusterau ar gyfer chwarae, difyrrwch a gweithgareddau amser hamdden eraill y plant hyn i ddibenion lles cymdeithasol a chyda'r nod o wella eu hamodau byw.*

— *Datblygu addysg a hyfforddiant y rhai sy'n darparu cyfleusterau gofal, addysgol a difyrrol o'r fath.*

— *Cynnal ymchwil i bob agwedd ar ofal, addysg a difyrrwch y plant hyn a chyhoeddi canlyniadau defnyddiol ymchwil o'r fath.*

# Nifer y Clybiau

## Ein Hamcanion

– Cefnogi Clwb Gofal Plant All-Ysgol sydd yn fforddiadwy, yn hygyrch ac o ansawdd da, ym mhob cymuned sy'n ei ddymuno.

– Bodloni anghenion pob plentyn, yn cynnwys y rhai sydd ag anghenion arbennig, ynghyd â'r holl rieni/gofalwyr, yn cynnwys rhieni/gofalwyr sy'n gweithio, cyhyd ag sy'n bosibl, a mynd at i geisio'u barn.

– Darparu gwasanaethau cefnogi, gwybodaeth a hyfforddiant i Glybiau Gofal Plant All-Ysgol.

– Gwerthfawrogi'r staff a gwirfoddolwyr ac ymdrin â nhw mewn ffordd agored a theg.

– Rhoi pob cyfle i bobl sy'n rhan o'r gyfundrefn i ddatblygu eu hunain, derbyn hyfforddiant a bod yn gyflogwr arferion gorau.

– Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i'n helpu i gyflawni ein datganiad cenhadol.

– Rhannu ag ysgolion, rhieni (sy'n gweithio ac fel arall), y Llywodraeth a'r cyhoedd yn gyffredinol fanteision Gofal Plant All-Ysgol o ansawdd da.



# Strwythur, Llywodraethiad a Rheolaeth

**Mae Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn ethol Bwrdd Ymddiriedolwyr**

**Bwrdd Ymddiriedolwyr / Cyfarwyddwyr (a etholwyd yn y CCB)**

Bydd y Prif Swyddog Gweithredol, y Rheolwr Ariannol a'r Rheolwr Gweinyddu yn bresennol (ond heb bleidlais) mewn nid llai na 4 cyfarfod y flwyddyn lle caiff y penderfyniadau ar gyfeiriad strategol a pholisi eu gwneud gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. *Bydd is-bwyllgor Ariannol a Phersonél yn cyfarfod bythefnos cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Gwahoddir pob aelod o'r Bwrdd i fynychu'r cyfarfod hwn a gadeirir gan Ymddiriedolwr, a'r Prif Swyddog Gweithredol, y Rheolwr Ariannol a'r Rheolwr Gweinyddu yn bresennol.*

**Prif Swyddog Gweithredol**

Rheolir y gyfundrefn o ddydd i ddydd gan y Prif Swyddog Gweithredol gyda chymorth/Cyngor yr Uwch Dîm

Personél Rheoli Allweddol

- Prif Swyddog Gweithredol
- Rheolwr Ariannol
- Rheolwr Gweinyddu

Rheolwr Ariannol, Rheolwr Hyfforddi Cenedlaethol a'r Rheolwr Gweinyddu

3 SWYDDOG RHANBARTHOL

£€$

**TÂL**

mae tâl yr holl staff, yn cynnwys Personél Rheoli Allweddol wedi ei alinio i **raddfeydd yr NJC**, a chytunir ar unrhyw godiadau yng Nghyfarfodydd y Bwrdd. Alinir disgrifiadau swydd a rolau i bwyntiau ar y raddfa a gosodir y cyfraddau tâl yn unol â hyn.

CAERDYDD | BAE COLWYN | CROSS HANDS

Mae Timau Rhanbarthol yn cynnwys y canlynol: Arweinydd Tîm i oruchwylio a chynorthwyo datblygiad a chefnogi'r staff sy'n gweithio mewn siroedd, Y Rheolwr Hyfforddi sy'n goruchwylio'r hyfforddwyr sydd wedi eu lleoli yn y rhanbarthau, mewn cysylltiad â'u Rheolwyr Llinell yng Ngogledd a Gorllewin Cymru,. Mae Hyfforddwyr yn cyflenwi'r amrywiaeth o gyrsiau ac yn rhoi cefnogaeth i fyfyrwyr unigol. Hefyd, gall Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant gyflenwi rhywfaint o hyfforddiant ond maent yn rhoi'r cyfan, bron, o'r mentora unigol i Weithwyr Chwarae.

## Y Dyfodol

**Yn ystod y 12 mis nesaf, bydd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn:**

Parhau i weithio o fewn i brosiect CWLWM ac yn sicrhau cyllido cyson y tu hwnt i Fedi'r 30ain 2017. Bydd hefyd yn dilyn ac yn rhoi ar waith yr argymhellion a ddaeth o werthusiad annibynnol ARAD ac yn dal i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru.

Gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol y Gweithredwyr Cynnar i'w helpu i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant. Byddwn yn sicrhau bod Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn deall pwysigrwydd gallu cofrestru i fod yn rhan o'r cynnig, a byddir yn paratoi clybiau mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill ar gyfer ei weithredu ymhellach.

Sôn yn barhaus wrth Glybiau Gofal Plant All-Ysgol am fuddiannau cofrestru ag AGGCC, a gweithio gyda thîm Addysg Llywodraeth Cymru i annog lleoliadau sydd wedi eu lleoli mewn ysgolion i gofrestru.

Atgyfnerthu'r Clybiau Gofal Plant All-Ysgol sy'n cael eu rhedeg gan Bwyllgorau Rheoli Gwirfoddol, gan sicrhau bod ganddynt gyfansoddiad cryf, a'u cael i adolygu eu dull o lywodraethu.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o gyrsiau hyfforddi mewn Gwaith Chwarae ar gael yn y dyfodol.

Gweithio gyda phartneriaid CWLWM i gasglu data llinell sylfaen ar y nifer o Weithwyr Chwarae sydd yn gallu siarad Cymraeg. Hefyd, datblygu adnoddau a deunydd hyfforddi i helpu Lleoliadau Gofal Plant All-Ysgol i wella'u Cymraeg mewn lleoliadau.


Parhaui i geisio ariannu ar gyfer prosiectau a hyfforddiant er mwyn sicrhau bod Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn dal i gynorthwyo Clybiau Gofal Plant All-Ysgol drwy gynnig hyfforddiant i wella gweithgareddau o ansawdd yn ogystal â chymorth busnes.

# Cefnogi Clybiau Gofal Plant All-Ysgol

Ar Fawrth 31 2017 roedd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cefnogi 1,602 (2016: 1,616) Clwb Gofal Plant All-Ysgol mewn 938 lleoliad (2016: 937), a wnaeth yn eu tro ddarparu 43,746 (2016: 44,527) o leoedd. Am yr ail dro mewn blynyddoedd olynol mae'r nifer o glybiau wedi gostwng, a hynny, i raddau helaeth, yn ganlyniad y cyfnod parhaus hwn o gynni.


Mae parhad y Grant Gofal Plant All-Ysgol hanfodol yn ystod y flwyddyn wedi helpu sawl Awdurdod Lleol i gynorthwyo lleoliadau Gofal Plant i barhau'n gynaliadwy ac i gael hyfforddiant a chefnogaeth. Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi cael cefnogaeth gan 12 Awdurdod Lleol. Nodau ac amcanion y grant yma fu staffio a hyfforddi, a chafwyd grantiau eraill, sef: Lleoedd a Gynorthwyir, Help Llaw, Grant Clwb Newydd a Grant Cynaliadwyedd. Mae'n bwysig ein bod fel cyfundrefn yn cydweithio'n agos â'r Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i sicrhau parhad yr ariannu hwn y tu hwnt i 2016-17.

## Rheolaeth Clybiau




| | | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| Clybiau a Reolir yn Wirfoddol | 421 | 45% | 46% |
| Darpariaeth breifat | 86 | 40% | 38% |
| Darpariaeth yr ysgol | 372 | 9% | 8% |
| Arall | 59 | 6% | 7% |

## Iaith Clybiau





| | | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| Cyfrwng Saesneg | 1113 | 69% | 69% |
| Cyfrwng Cymraeg | 280 | 18% | 18% |
| Dwyieithog (Saesneg a Chymraeg) | 209 | 13% | 13% |

# Bodloni Anghenion Pob Plentyn

**Y grantiau a ddyfarnwyd 2016-17**

Y LLEIAF A DDYFARNWYD | Y MWYAF A DDYFARNWYD | Y CYFANSWM A DDYFARNWYD







Mae grantiau **Help Llaw** yn galluogi integreiddio plant ag anableddau i mewn i glybiau lleol. Mae teuluoedd yng Nghasnewydd, Conwy a Gwynedd wedi cael budd o 1,959 o sesiynau yn ystod 2016-17.

# Arolwg Bodlonrwydd Blynyddol 2016-17

WEDI BOD YN AELODAU ERS 5MLYNEDD+
67%

270 O YMATEBWYR
48.5%
o Leoliadau sy'n Aelodau

GYDA CHEFNOGAETH A GWASANAETH
89%
yn fodlon

BOD YR HYFFORDDIANT A RODDWYD WEDI BOD O ANSAWDD, YN AMRYWIOL AC YN HYGYRCH
70%
yn cytuno

BOD Y STAFF WEDI BOD YN GWRTAIS, YN BROFFESIYNOL AC WEDI YMATEB I GWESTIYNAU YN AMSEROL
91%
o'r farn hon

Aethom yn ôl at ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid blynyddol, 'Sut 'da 'ni'n Neud' eleni. Caiff hwn ei anfon allan gyda'r ffurflenni cais am aelodaeth. Y mae'n mynd ati i wybod safbwyntiau'r clybiau a sut olwg sydd ganddynt ar y gefnogaeth a roddir.

Rydym yn ei ddefnyddio'n ogystal i wella ein gwasanaethau, yn cynnwys rhoi cefnogaeth ar TG a chyrchu'r wefan. Y mae hefyd yn eich helpu drwy roi gwybodaeth ar gyfer adrodd i siroedd ar sail chwarterol a blynyddol. Cawsom rai canlyniadau a sylwadau cadarnhaol iawn.

## Yr Hyn Mae'n Haelodau'n Ei Feddwl

Derbyniodd
83%
y cyngor a'r gefnogaeth berthnasol

Cyrchodd
89%
ein hadnoddau a'n gwefan

Byddai
87%
yn argymell ymaelodi â ni

## Yr Hyn Ddywedodd Ein Haelodau

*"Mae'r holl staff yr wyf wedi siarad â nhw wedi bod yn gyfeillgar iawn ac yn eiddgar i ateb fy nghwestiynau."*

*"Mae'r holl staff yn Clybiau bob tro'n awyddus i helpu, yn siriol, yn gyfeillgar ac yn rhoi cyngor a gwybodaeth ragorol i ni. Mae Clybiau'n rhagori gryn dipyn ar gyrff eraill yr ydym yn aelodau ohonynt o ran rhoi gwybodaeth dda. Rydym yn hynod falch o fod yn gweithio gyda Clybiau."*

*"Mae'r cymorth yr ydym yn ei dderbyn gan Clybiau Plant yn hynod fuddiol i rediad ein clwb. Does dim yn ormod o drafferth!"*

"Mae'r holl Hyfforddiant a gynigir bob tro'n wych; mae'r staff sy'n ymgymryd â'r hyfforddi'n dweud ei fod yn ardderchog. Mae'r staff bob tro'n mynd o'u ffordd i'n helpu."

"Roedd y gweithdai a gynigiwyd yn wych. Roedd yr help gyda cheisiadau am arian yn hynod fuddiol."

# Datblygu'r Gweithlu

Rydym yn darparu gwasanaethau cefnogi, gwybodaeth a hyfforddiant o ansawdd i Glybiau Gofal Plant All-Ysgol

**Yn 2016-17**

Daeth **6,419** i'n sesiynau hyfforddi a'n gweithdai.

Cynhaliwyd **2,220** sesiwn hyfforddi.

**36** CYMHWYSTER CACHE MEWN GWAITH CHWARAE & **33** CYMHWYSTER CITY AND GUILDS

gan ein Swyddogion Hyfforddi


Fe wnaethom weithio gyda **44** PRENTIS GWAITH CHWARAE

Mae hyn yn cynnwys
- 18 prentis a enillodd eu Fframweithiau Lefel 3
- 29 prentis a gofrestrodd i wneud Fframweithiau Lefel 3
- 2 prentis a enillodd eu Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae
- 5 prentis a enillodd eu Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae

Fe wnaethom gyflenwi Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gwaith Chwarae i **8** GWEITHIWR CHWARAE

a phedwar Dyfarniad CACHE Lefel 3 mewn Trawsnewid i Waith Chwarae (O'r Blynyddoedd Cynnar) i **18** GWEITHIWR CHWARAE

Caiff staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs eu hannog i fynychu digwyddiadau hyfforddi allanol, gweithdai, ymgynghoriadau a chynadleddau, a chyflwynwyd a chymeradwywyd 66 cais i fynychu hyfforddiant yn 2016-17. Yn ystod y flwyddyn cyflenwyd yn ogystal 7 sesiwn hyfforddi mewnol i 129 aelod o'r staff, yn rhoi sgiliau ar gyfer mentora busnesau a gweithgareddau clwb.




*'Drwy dderbyn ariannu ychwanegol gan y sireodd roedd modd i ni wella ansawdd Clybiau Gofal Plant All-Ysgol ar draws Cymru drwy uwchsgilio staff.'*

## Yr Hyfforddiant a Roddwyd

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gyflenwi:

- *Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ddiogelu Sylfaenol Cymru Gyfan i 141 o fynychwyr*
- *Pobi Cacen AGGCC i 25 o fynychwyr*
- *Gweithdai Gweithwyr Chwarae i 241 o fynychwyr*
- *Cyrsiau Tanategu Gwybodaeth i 12 o fynychwyr*
- *Pac Offer y Gweithiwr Chwarae i 47 o fynychwyr*
- *5 Streips Tebyg Sawl Ffordd i 88 o fynychwyr. Mae hwn yn weithdy newydd y gwnaethom ei ddatblygu i roi i Weithwyr Chwarae well dealltwriaeth o'r ffordd y mae Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth yn effeithio ar bobl ifanc*

Mae'r gwerthusiadau o'n holl hyfforddiant wedi cynnal **safon uchel** – byddai 94% o'r dysgwyr yn rhoi yr hyn y gwnaethant ei ddysgu ar waith yn eu clybiau a byddai 96% yn cymeradwyo Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs fel hyfforddwr. Graddiwyd ein hyfforddwyr ar y cyfan yn 4.8 marc allan o 5.

# Gweithio Mewn Partneriaeth

## Gweithio mewn partneriaeth â chyfundrefnau eraill i'n helpu i gyflawni ein datganiad cenhadaeth

Drwy gydol y flwyddyn newydd mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi parhau yn ei berthynas agos â Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, yn eu cefnogi i sicrhau bod clwb Gofal Plant All-Ysgol ym mhob cymuned sy'n ei ddymuno.

Drwy brosiect CWLWM yn cynnwys Mudiad Meithrin, Methrinfeydd Cymdeithas Dydd Cenedlaethol, PACEY (Cymru) a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru, rydym wedi gweithio i gyflenwi gwasanaeth strategol, dwyieithog, integredig sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ledled Cymru.

Rydym wedi cefnogi AGGCC i ddwyn newidiadau i gofrestru a datblygu'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ar-lein.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â chyfundrefnau eraill sy'n gweithio ar lefel Cymru gyfan: Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru o Ebrill 1af 2017) a Chyngor Gweithdredu Gwirfoddol Cymru.

Rydym wedi datblygu cymhwyster newydd (Dyfarniad Lefel 2 mewn Arferion Gwaith Chwarae) gyda Chwarae Cymru, Addysg Oedolion Cymru (coleg cymunedol Cymdeithas Addysg y Gweithwyr a'r YMCA gynt) ac Agored Cymru.

Mae Partneriaethau sy'n gweithio mewn cysylltiad â'i gilydd ym Merthyr yn dal i gydweithio â Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru a Mudiad Meithrin. Parhaodd y contract yng Nghasnewydd yn ogystal gyda'r ddau bartner yma a PACEY Cymru.

Mae gennym bartneriaethau newydd, a rhai sy'n parhau, gydag Ymddiriedolaethau a chyrff ariannu, yn cynnwys Cronfeydd y Degwm Caerdydd a Sir Fynwy, Cronfa Gofal Integredig, Arian i Bawb y Loteri Fawr, Cronfa Datblygu Cynaliadwy Sir Benfro, South Hook, Cronfa Datblygu Cynaliadwy Eryri, Cynllun Cymdeithasol-Economaidd Magnox, a Chyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnolegau.

Drwy'r staff datblygu rydym yn gweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf, Working Links, Canolfannau Addysg Oedolion o gwmpas Cymru, Mentrau Iaith, sefydliadau gwirfoddol siroedd, Cymru Cooks, Campau'r Ddraig, Swyddogion Datblygu Chwarae, ACAS, timau Dechrau'n Deg, grwpiau'n ymwneud â'r Corfforol a'r Maethegol, deietegwyr sirol, Canolfan Byd Gwaith a sawl un arall.





# Hyrwyddo Gofal Plant All-Ysgol

## Cyfleu manteision a phwysigrwydd Gofal Plant All-Ysgol o ansawdd i ysgolion, rhieni (sy'n gweithio neu fel arall), y llywodraeth a'r cyhoedd yn gyffredinol

**Cyflawnwyd drwy**:

- Gymryd rhan mewn cyfarfodydd (Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Gofal Plant, Cyngor Gofal Cymru, Chwarae Cymru, SkillsActive a chynghorau gwirfoddol lleol)
- Ymateb i ymgynghoriadau (yn cynnwys rhaglen waith Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc pumed cynulliad Llywodraeth Cymru (2016-2021) i ystyried yn eu rhaglen waith: cynllunio, newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol
- **Y Bont**, ein cylchgrawn/newyddlen fewnol sy'n dal i fod yn erfyn pwysig i gyfathrebu â Chlybiau Gofal Plant All-ysgol a sefydliadau eraill, ASau, ACau, personél awdurdodau lleol a gwneuthurwyr polisi
- Ein gwefan, **www.clybiauplantcymru.org**, sydd yn y broses o gael ei diweddaru
- Y Cyfryngau Cymdeithasol (**Twitter, Pinterest a Facebook**) sydd wedi cynyddu ein proffil cyhoeddus, wedi gwneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd yn gyffredinol ac wedi cynnig mwy o gyfleoedd i rwydweithio

# Prosiectau

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cefnogi ac yn rhoi ar waith nifer o brosiectau fel y gallwn gyrraedd ein hamcanion fel cyfundrefn

## Ynni Niwclear Horizon

Grant i ariannu chwe gweithdy gwyddonol mewn ardaloedd gwledig yng Ngogledd Ynys Môn.

## Chwarae Parc Eryri, Ein Chwarae Ni

Derbyniwyd arian gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy Eryri a Magnox Ltd i ddatblygu gweithgareddau ychwanegol ar gyfer ein hadnodd, Parth Natur, gyda chymorth Parc Cenedlaethol Eryri. Caiff y gweithgareddau eu treialu mewn clybiau yn ystod 2017-2018.

## Gerddi Coedlan Colby

Digwyddiad i arddangos a lansio gweithgareddau newydd ar gyfer y pecyn Parth Natur, ac ail ddigwyddiad lansio yn Hostel Ieuenctid Aberllydan.

## Ymddiriedolaeth Elusennol Ray Gravell a'i Ffrindiau

Ariannodd yr uchod weithdy Chwarae Allan Gyda'r Elfennau mewn 5 lleoliad yn Sir Gaerfyrddin.



## Wythnos Wyddoniaeth Prydain

Arian i gynnal 'Digwyddiad Dathlu Gwyddoniaeth Gampus' yng Nghanolfan Fenter Sir Benfro, ar y cyd â FABLAB Sir Benfro.

## Chwarae Parc Penfro, Ein Chwarae Ni

Derbyniwyd arian o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro) i ddatblygu gweithgareddau ychwanegol ar gyfer ein hadnodd Parth Natur, a gafodd eu treialu mewn 5 clwb.

## SwansAid

Derbyniwyd arian i gynnal gweithdy Yn Gyforiog o Gemau mewn 5 Clwb Gofal Plant All-Ysgol ar draws Abertawe, a oedd o fudd i 88 o blant a 12 o weithwyr chwarae.

## Chwarae, Dysgu a Thyfu'n Iach – Grant Sector Gwirfoddol Llywodraeth Cymru – Her Iechyd Cymru

Daeth y prosiect, a fu'n annog plant i arwain bywydau iach a gwneud penderfyniadau gwybodus, i'w derfyn eleni. Casglwyd data gan 574 gweithiwr gofal plant a 1,777 o blant, a bydd Adroddiad Effaith i ddangos canlyniadau cadarnhaol y prosiect yn cael ei gynhyrchu yn ystod 20-17-18. I ddilyn y prosiect, mae gweithdy Bydïo'n cael ei ddatblygu yn ystod 2017-18.



## Y Cynnig 30 Awr o Ofal Plant Am Ddim

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi bod yn arwain prosiect CWLWM i gefnogi cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn, a gafodd eu dyfarnu'n ardaloedd peilot dan Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru.



## Chwarae'r Nen, Chwarae All-Ysgol

Nod y prosiect, a ariannwyd gan y cyngor cyfleusterau gwyddoniaeth a thechnoleg (STFC), oedd ysbrydoli plant i ymgysylltu â'r pynciau, Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg mewn ffordd hwyliog, gan ddysgu drwy chwarae. Treialwyd 20 o weithgareddau newydd mewn 12 lleoliad yn Ne-ddwyrain Cymru, yna cafodd y 15 mwyaf poblogaidd eu dylunio a'u hychwanegu at ein gwefan fel y gallent gael eu defnyddio gan yr holl glybiau sy'n aelodau drwy Gymru gyfan.

## Sefydliad Pears

Ariannodd grant Cydlynu Cymunedau Caerdydd weithdy Bydïo mewn 6 lleoliad yng Nghaerdydd, gan ddefnyddio'r adnodd, Parth Diwylliant. Ceisir ariannu ychwanegol yn 2017-18 er mwyn medru gwella'r adnodd, Parth Diwylliant, hynny'n seiliedig ar adborth a dderbyniwyd ac er mwyn ateb yn well anghenion Clybiau Gofal Plant All-Ysgol.

## Cronfa'r Degwm, Sir Fynwy

Arian i gynnal gweithdy Parth Natur mewn 2 Glwb Gofal Plant All-Ysgol.



# Adolygiad Ariannol


**Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**

Yn ystod y flwyddyn trwy gryn ymdrech a gwaith caled ceisiwyd cyrraedd ein targed codi arian am y flwyddyn (£110,000) a gwnaed 100 o geisiadau. Yn anffodus lleihaodd y raddfa lwyddiant i 42% (o 64%) a sawl ariannwr wedi eu gordanysgrifio â cheisiadau.

Unwaith yn rhagor penderfynodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i ddefnyddio cronfeydd-wrth-gefn cyfyngedig er mwyn rhoi'r un gwasanaeth i Glybiau Gofal Plant All-Ysgol.


Am y tro cyntaf mewn sawl blwyddyn, mae'r gyfundrefn wedi adrodd ar warged anghyfyngedig o £5000, gan ddangos y gwaith caled a'r ymroddiad y mae'r staff wedi ei roi i leihau costau.

## Incwm





| | 2016-17 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 634,192 | 54% | 637,823 | 55% |
| Grant Craidd LlC | | | | |
| GCPTh LlC | 379,938 | 32% | 379,938 | 4% |
| Incwm Arall yn cynnwys Aelodaeth | 40,623 | 3% | 47,500 | 5% |
| Prentisiaethau | 73,201 | 6% | 57,155 | 2% |
| Grant Sector Gwirfoddol, Her Iechyd Cymru | 27,122 | 2% | 22,034 | 2% |
| Grantiau Refeniw Eraill | 24,430 | 2% | 314 | 1% |
| Buddsoddiad | 193 | 0.016% | 314 | 0.03% |
| | 1,179,699 | | 1,157,909 | 100% |

## Gwariant




| | 2016-17 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | 728,532 | 63% | 747,807 | 62% |
| Llywodraethiad | 8,197 | 1% | 8,338 | 1% |
| Grantiau | 106,836 | 9% | 141,489 | 12% |
| Dibrisiad | 3,997 | 0% | 2,841 | 0% |
| Costau rhedeg swyddfa | 279,387 | 24% | 272,455 | 23% |
| Mannau hyfforddi ac adnoddau | 32,464 | 3% | 28,453 | 2% |
| Adnoddau i Glybiau | 2,465 | 0% | 2,549 | 0% |
| | 1,161,878 | | 1,203,932 | |

## Gwariant – Gweithgareddau Elusennol




| | 2016-17 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau a Rhoddion | 399,707 | 40% | 404,126 | 39% |
| Hyfforddi | 237,800 | 23% | 240,430 | 24% |
| Datblygiad a Chefnogaeth | 374,409 | 37% | 378,547 | 37% |
| | 1,011,916 | | 1,023,103 | 100% |

*Ers 2001,*

**mae staff wedi cefnogi ceisiadau am ariannu a ddaeth â**

*£24,678,437.34*

wedi ei ennill i gefnogi gwaith Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, ac

*£11,373,209.43*

wedi ei ennill i Clybiau Gofal Plant All-Ysgol.



*£3.97 ar gyfartaledd*

yw'r hyn sydd wedi ei gynhyrchu gennym am bob £1 o ariannu gan Lywodraeth Cymru (2010/2017)

# Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn bodoli i helpu cymunedau yng Nghymru drwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi Clybiau Gofal Plant All-Ysgol sydd o ansawdd, yn fforddiadwy ac yn hygyrch.

**Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**
**Cwmni a gyfyngir trwy Warant**
**ac Elusen Gofrestredig**

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 2017

Rhif y Cwmni: 4296436
Rhif Elusen: 1093260

## MANYLION CYSYLLTU

Am wybod mwy am sut y mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn gweithredu? Cysylltwch â ni.

Swyddfa Gofrestredig: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd CF14 5UW

Ffôn: 029 2074 1000
Ffacs: 029 2074 1047
Gwe: www.clybiauplantcymru.org
E: info@clybiauplantcymru.org